Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
North Wales Together
Gwasanaethau Ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu
Seamless services for people with Learning Disabilities

DFN Project | SEARCH

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Engage To Change

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council
Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw Sir y Fflint yn ddiogel
Together we can all help to keep Flintshire safe

Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru
Working in partnership with Welsh Government

Cyflwynir gan
Delivered by
Cronfa Loteri Fawr
Big Lottery Fund



*Llun o interniaid 'Engage to Change Project SEARCH' yn Ysbyty Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.*

Rhaglen interniaeth blwyddyn o hyd yw DFN project SEARCH sy'n cefnogi pobl ifanc sydd ag anabledd dysgu i ddatblygu y sgiliau a'r profiad sydd ei angen o fewn gwaith cyflogedig.

Rydym eisiau recriwtio gr  p o bobl ifanc 18 - 25 oed i weithio yn ysbyty Glan Clwyd Bodelwyddan, gyda chefnogaeth gan Agoriad cyf, Betsi Cadwaladr UHB, Cynghorau Sir Conwy a Sir Ddinbych ac Engage to Change.

Mae Engage to Change yn bartneriaeth rhwng Anabledd Dysgu Cymru, Agoriad cyf, Prifysgol Caerdydd ac Elite. Ariennir y prosiect gan gronfa gymunedol y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru.

Prif syniad DFN project SEARCH yw creu partneriaeth sy'n dod ag addysg, hyfforddiant a sgiliau at ei gilydd mewn gweithle go iawn. Gyda chefnogaeth tiwtor a hyfforddwr swydd, bydd interniaid yn cael cyfle i brofi tair interniaeth wahanol.

*Buddion DFNproject SEARCH I'r interniaid*

- Cymryd rhan mewn amrywiaeth o interniaethau mewn busnes lleol o statws
- Ennill sgiliau gwaith cystadleuol sy'n drosglwyddadwy
- Ennill mwy o annibyniaeth, hunan-hyder, hunan-barch a gr p o gyfeillion newydd
- Derbyn cefnogaeth, hyfforddiant, cyfarwyddyd ac adborth ar eich gwaith gan yr hyfforddwr, hyfforddwr swyddi a rheolwyr o fewn y busnes
- Datblygu cysylltiadau ag asiantaethau sy'n cynnig cymorth i oedolion

**Byddwn yn cynnal dau sesiwn wybodaeth ar-lein trwy 'Zoom' lle gallwch ddarganfod mwy am y prosiect a sut i gymryd rhan.**

I fod yn gymwys i gymryd rhan yn y prosiect, rhaid i chi fod yn berson ifanc rhwng 18 - 25 oed sydd ag anabledd dysgu yn byw yng Nghonwy neu Sir Ddinbych ac ddim mewn addysg, cyflogaeth â thâl na hyfforddiant ar hyn o bryd.

Bydd y sesiynau yn cael eu cynnal ar

**22 a 23 Medi rhwng 5YH 6YH**

Cysylltwch â Robyn ar e-bost: robyn@agoriad.org.uk

Neu dros y ffôn ar 01248361392 i gael mwy o fanylion ar sut ymuno

**Mae'r ceisiadau ar gyfer Engage to Change DFN project SEARCH yn Ysbyty Glan Clwyd bellach ar agor. I wneud cais:**

Anfonwch CV a llythyr eglurhaol byr i Robyn ar ebost: robyn@agoriad.org.uk

**Dyddiad cau ar gyfer pob cais yw'r 27ain o Fedi 2021**